ADRODDIAD CRYNO YMGYNGHORI ANFFURFIOL

Adolygiad Ysgol Ardal Brynffordd, Licswm a Rhosesmor

Tachwedd 2016

DRAFT 2.9

CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL

Cynnwys

1. Crynodeb 3

2. Cyflwyniad 4

3. Cefndir 5

4. Canfyddiadau 5

4.1. Canlyniadau a Themâu Cyffredinol Ffurflen Ymateb Oedolion 6
4.2. Sylwadau ac Ymatebion Oedolion 8

4.2.1. Opsiynau Amgen 8
4.2.2. Cwestiwn ymgynghori 9
4.2.3. Sylw ariannol 10
4.2.4. Effaith ar Blant 10
4.2.5. Effaith ar Gymunedau 11
4.2.6. Effaith ar Addysg 11
4.2.7. Effaith ar Ddewis Rhieni 12
4.2.8. Effaith ar Draffig a Chludiant 12
4.2.9. Cryfderau'r ysgol 13
4.2.10. Cefnogi Cynnig 13
4.3. Ysgol Gynradd Brynffordd 14
4.4. Ysgol Gynradd Licswm 15
4.5. Ysgol Rhos Helyg, Rhosesmor 16
4.6. Ymatebion di-berthynol 17
4.7. Crynodeb Ffurflenni Ymateb Plant a Phobl Ifanc 18

5. Camau nesaf 20

Atodiad 1 - Holl sylwadau o'r Ffurflen Ymateb Oedolion

Atodiad 2 - Llythyr Corff Llywodraethu

Atodiad 3 - Llythyr Cyngor Cymuned

Atodiad 4 - Llythyr Pennaeth

Atodiad 5 - Llythyr Aelodau Lleol

Atodiad 6 - Holl sylwadau o'r Ffurflen Ymateb Plant a Phobl Ifanc

Atodiad 7 - Papur Gwybodaeth Adolygiad Ardal

DRAFT 2.9

1. Crynodeb

Mae'r ddogfen hon yn archwilio'r ymatebion i'r Ymgynghoriad Anffurfiol ar gyfer yr Adolygiad Ysgolion Ardal a oedd yn cynnwys Brynffordd, Licswm ac Ysgol Rhos Helyg, Rhosesmor. Mae'n dadansoddi'r opsiynau a ffefrir, sylwadau ac adborth yn y ffurflenni adborth a gohebiaeth gan y Cyngor.

Roedd nifer dda wedi mynychu digwyddiadau ymgynghori a gynhaliwyd yn y tair cymuned, sy'n cael ei adlewyrchu gan y nifer uchel o ymatebion a dderbyniwyd. Yn naturiol, mewn ymarferion ymgynghori o'r fath roedd rhai pryderon a fynegwyd gan fudd-ddeiliaid, yn gryno, y posibilrwydd o golli amgylchedd yr ysgol fach a'r effaith bosibl ar gymunedau, gyda materion megis cydlyniant cymunedol a cholli cyfleusterau cymunedol.

Derbyniodd y Cyngor 605 o ffurflenni ymateb, 2 ohonynt a ddifethwyd. Yn ogystal, 2 lythyr gan Gyrff Llywodraethu unigol, 1 llythyr gan Gyngor Cymuned, 1 llythyr gan Bennaeth, 1 llythyr gan Aelod Lleol a 33 o ffurflenni ymateb oddi wrth Blant a Phobl Ifanc, roedd hyn yn ychwanegol at yr ymarfer ymgynghori yn seiliedig ar ysgol arbenigol a gynhaliwyd gyda phlant a phobl ifanc yn y tair ysgol.

Ar y cyfan, yr opsiwn a ffefrir ar gyfer ymatebwyr sy'n oedolion oedd Opsiwn 3, sef cadw Ysgol Rhos Helyg, Rhosesmor fel ag y mae ar hyn o bryd ac i gyfuno Ysgol Gynradd Gymunedol Brynffordd ac Ysgol Gynradd Gymunedol Licswm. ar un safle. Fodd bynnag, pan oedd data'n cael ei dadansoddi ar sail ysgol unigol, roedd ymatebion oedolion ar gyfer Ysgol Gynradd Brynffordd ac Ysgol Gynradd Licswm yn ffafrio Opsiwn 1, i gynnal y Status Quo. Tra yn Ysgol Rhos Helyg, Rhosesmor roedd ymatebion oedolion yn ffafrio Opsiwn 3.

Yr opsiwn a ffefrir ar gyfer ymatebwyr sy'n blant a phobl ifanc oedd Opsiwn 3, sef cadw Ysgol Rhos Helyg, Rhosesmor fel ag y mae ar hyn o bryd ac i gyfuno Ysgol Gynradd Gymunedol Brynffordd ac Ysgol Gynradd Gymunedol Licswm ar un safle.

O ran Opsiwn 3, mae'n amlwg nad yw'n boblogaidd o fewn cymunedau Brynffordd a Licswm. Fodd bynnag, mae'r lefel hon o newid yn cael rhywfaint o gymorth o fewn pob cymuned ac yn fwy derbyniol gan fudd-ddeiliaid na newid mwy radical ar gyfer yr ardal.

Mae gan Opsiwn 3 hefyd gefnogaeth y Llywodraethwyr yn Ysgol Gynradd Gymunedol Brynffordd ac Ysgol Rhos Helyg, Rhosesmor, yn ogystal â'r Aelod Lleol ar gyfer Ardal Brynffordd.

Yr hyn sy'n amlwg o'r ymarfer ymgynghori yw mai ychydig iawn o gefnogaeth oedd yna i Opsiwn 2 (Ysgol ardal ar un safle).

DRAFT 2.9

Mae’r holl sylwadau / adborth a gohebiaeth ychwanegol i'w gweld yn yr Atodiadau.

2. Cyflwyniad

Mae Cyngor Sir y Fflint yn gyfrifol am adolygu a moderneiddio holl ddarpariaeth ysgol, er mwyn sicrhau ein bod yn darparu'r cyfleoedd gorau posibl i ddysgwyr, fel y gallant gyflawni eu potensial llawn.

Mae’r Cyngor angen sicrhau bod nifer digonol o leoedd ysgol o'r math cywir, yn y lleoliadau cywir. Nid yw hyn yn syml gan fod yna nifer fawr o leoedd gwag mewn ysgolion mewn rhai ardaloedd o'r Sir, tra bod ardaloedd eraill heb ddigon o leoedd i ateb y galw lleol. Mewn ardaloedd eraill, mae poblogaethau ysgol yn cael eu cynnal gan blant a phobl ifanc o'r tu allan i'r ardal leol trwy ddewis rhieni. Mae’r angen i gynnal nifer fawr o adeiladau ysgol sy'n heneiddio a'r seilwaith ategol yn anghynaliadwy. Felly, mae angen adolygu ein darpariaeth ysgol:

- Sicrhau bod darpariaeth addysg o ansawdd uchel ac yn gynaliadwy;
- Gwella ansawdd adeiladau ysgolion a chyfleusterau; a
- Darparu'r nifer cywir o leoedd mewn ysgolion, o’r math cywir, yn y lleoliadau cywir.

Mae'r dasg yn golygu:

- Rhagweld niferoedd disgyblion;
- Rheoli'r cyflenwad o leoedd mewn ysgolion;
- Rheoli'r galw drwy dderbyniadau a gweithdrefnau apelio;
- Sicrhau bod fframwaith yn ei le i sicrhau gwelliant drwy newid sefydliadol ysgolion;
- Bod yn barod i wneud penderfyniadau anodd; a
- Monitro a gwerthuso effaith penderfyniadau.

Rydym yn adolygu a moderneiddio'r ffordd y caiff addysg ei darparu drwy raglen dreigl o adolygiadau ardal. Rydym yn adolygu ysgolion fesul ardal, i wneud yn siŵr pan fyddwn yn gwneud newidiadau i drefniadaeth ysgolion, ein bod yn ystyried unrhyw effaith bosibl ar ysgolion eraill cyfagos.

Pan fyddwn yn cynnal adolygiad ardal, byddwn bob amser yn ymgynghori â phlant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr sy'n gysylltiedig ag ysgolion yn yr ardal honno. Mae hyn er mwyn iddynt gael dweud eu dweud a bod yn rhan o benderfyniadau a wneir am ein hysgolion lleol.

Gall canlyniadau adolygiad ardal gynnwys cyfuno ar un safle a ffefrir neu adeiladu ysgolion ardal newydd a chau ysgolion nad ydynt bellach yn addas i'r diben.

DRAFT 2.9

Gall cyflawni hyn ofyn am fuddsoddiad cyfalaf sylweddol, ar y cyd â Llywodraeth Cymru, i wella ein seilwaith ysgolion a sicrhau bod adeiladau ysgolion yn addas ac yn darparu etifeddiaeth effeithiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

3. Cefndir

Ym mis Mehefin 2015 penderfynodd y Cabinet ein bod yn cychwyn ymgynghoriad ffurfiol ar gyfer adolygiad ardal ar gyfer yr ysgolion canlynol:-

- Ysgol Gynradd Brynffordd
- Ysgol Gynradd Licswm. Ysgol Rhos Helyg, Rhosesmor

Roedd yr adolygiad ysgol ardal yn asesu'r ddarpariaeth addysgol yn ardal Brynffordd, Licswm a Rhosesmor.

Mae'r opsiynau ar gyfer yr ardal, fel y cytunwyd gyda chyrff llywodraethu'r ysgolion fel a ganlyn:-

- Opsiwn 1: Status Quo
- Opsiwn 2: Un Ysgol Ardal ar Un Safle
- Opsiwn 3: Cadw Ysgol Rhos Helyg, Rhosesmor ac un Ysgol Ardal ar un safle (naill ai Ysgol Gynradd Brynffordd neu Ysgol Gynradd Licswm.)

Beth a olygai'r opsiynau?

- **Opsiwn 1: Status Quo** - Pob ysgol yn aros fel y mae ac yn cadw ei henw, ei chategori, ei chyllideb, ei llywodraethwyr a'i staff ac yn aros yn ei chymuned.
- **Opsiwn 2: Ysgol Ardal ar un safle** – Ysgol Ardal – un safle, byddai'r ysgol yn cadw ei chategori ond yn cael enw, corff llywodraethu, pennaeth a chyllideb newydd ac yn aros yn un o'r cymunedau, naill ai Brynffordd, Licswm neu Rosesmor.
- **Opsiwn 3: Ysgolion Ardal ar ddau safle** - byddai Ysgol Rhos Helyg, Rhosesmor yn aros fel y mae ac yn cadw ei henw, ei chategori, ei chyllideb, ei llywodraethwyr a'i staff ac yn aros yn ei chymuned. Byddai Ysgol Gynradd Brynffordd ac Ysgol Gynradd Licswm yn uno ar un safle. Byddai'r ysgol gyfunedig yn cadw ei chategori ond yn cael enw, corff llywodraethu, pennaeth a chyllideb newydd ac yn aros yn un o'r cymunedau, naill ai Brynffordd neu Licswm.

Mae gwybodaeth allweddol, gan gynnwys Gwerthusiad Opsiynau, Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg, Asesiadau Effaith Cymunedol, Asesiad o Effaith ar Gludiant a Gwerthusiadau Adeiladau, wedi'u casglu ynghyd er mwyn llywio'r adroddiad hwn, ac mae ar gael i'w gweld drwy'r ddolen gyswllt ganlynol: www.siryfflint.gov.uk/moderneiddioysgolion.

4. Canfyddiadau

DRAFT 2.9

Yn ystod y cyfnod Ymgynghori Anffurfiol (oedd yn rhedeg o 1 Gorffennaf 2016 i 26 Awst 2016) gwahoddwyd rhieni, gofalwyr, gwarcheidwaid, llywodraethwyr ac aelodau o'r staff sy'n gysylltiedig â phob ysgol i gwblhau arolwg ynghylch yr opsiynau posibl ar gyfer yr ardal. Roedd y gymuned ehangach hefyd yn gallu ymateb trwy wefan y Cyngor.

Cynhaliwyd ymarferion ymgynghori ar wahân gyda Phlant a Phobl Ifanc ym mhob ysgol ac roedd eu safbwyntiau wedi eu cynnwys yn y ddogfen ymgynghori. Yn ogystal, roedd fersiwn plant a phobl ifanc o'r ffurflen ymateb hefyd ar gael.

Gellid cwblhau ffurflenni ymateb ar-lein, mewn digwyddiadau ymgynghori, drwy'r post, drwy e-bost ac yn bersonol.

4.1. Canlyniadau a Themâu Cyffredinol Ffurflen Ymateb Oedolion

- 34 (5.6%) o ymatebion gan aelodau o staff o'r 3 ysgol;
- 10 (1.7%) o ymatebion gan lywodraethwyr ysgol unigol;
- 257 (42.6%) o ymatebion wedi eu derbyn gan rieni, gwarcheidwaid a gofalwyr;
- 302 (50.1%) o ymatebion, a oedd yn cynnwys aelodau o'r cymunedau, cyn



ddisgyblion a'r rhai nad oedd yn nodi perthynas.

- 120 o ymatebion (19.9%) yn gysylltiedig â Brynffordd;
- 81 o ymatebion (13.4%) yn gysylltiedig â Licswm;
- 382 o ymatebion (63.3%) yn gysylltiedig ag Ysgol Rhos Helyg, Rhosesmor;
- 20 o ymatebion (3.3%) naill ai'n dewis "Arall" neu heb nodi ysgol.

DRAFT 2.9



- Opsiwn 1 - Status Quo - 156 o bobl (25.9%),
- Opsiwn 2 - Un Ysgol Ardal ar un safle - 9 o bobl (1.5%);
- Opsiwn 3 - Cadw Ysgol Rhos Helyg, Rhosesmor ac un Ysgol Ardal ar un safle – 422 o ymatebwyr (70.0%);
- 16 o bobl (2.7%) naill ai heb nodi un a ffefrir neu wedi cynnig dewis arall o ffedereiddio



Allan o'r 603 o bobl a gyflwynodd ffurflen ymateb, ysgrifennodd 246 (40.8%) sylwadau ychwanegol. Mae'r sylwadau hyn wedi cael eu dadansoddi a darnau wedi eu dewis i nodi'r themâu allweddol canlynol:



4.2. Sylwadau ac Ymatebion Oedolion

Mae'r canlynol yn darparu dyfyniadau oedd wedi eu cynnwys o fewn pob thema allweddol. Yn ychwanegol at y dyfyniadau, mae'r Tîm Moderneiddio Ysgolion wedi ymateb i egluro unrhyw fater, gwestiwn neu sylw sydd wedi cael ei godi.

- Gellir gweld holl sylwadau ychwanegol ar ffurflen ymateb Oedolion yn llawn yn Atodiad 1
- Llythyrau Corff Llywodraethu i'w gweld yn Atodiad 2
- Llythyr Cyngor Cymuned i'w weld yn Atodiad 3
- Llythyr Pennaeth i'w weld yn Atodiad 4
- Llythyr Aelodau Lleol i'w weld yn Atodiad 5
- Gellir gweld holl sylwadau ychwanegol ar ffurflen ymateb Plant a Phobl Ifanc yn llawn yn Atodiad 6
- Gellir gweld papur gwybodaeth Adolygiad Ardal yn Atodiad 7

4.2.1. Opsiynau Amgen

Pwyntiau a godwyd	Ymateb yr Awdurdod Lleol
Ysgol Gynradd Licswm • Ffedereiddio ysgolion Brynffordd a Licswm a status quo ar gyfer Rhos Helyg • Rwy'n gobeithio y bydd ffedereiddio gydag ysgol Brynffordd yn cryfhau ein cymunedau a gwella'r berthynas waith	Roedd ffedereiddio wedi'i gynnwys yn wreiddiol fel dewis ar gyfer yr ardal ac fe'i cyflwynwyd i gyrff llywodraethu pob ysgol. Cafodd yr opsiwn hwn ei ddiystyru gan y llywodraethwyr ar y pryd ac o ganlyniad cafodd ffedereiddio ei dynnu fel opsiwn ac aeth y Cyngor yn ei flaen i adolygu'r tri opsiwn ar gyfer yr ardal fel y cytunwyd.

DRAFT 2.

• Mae ffedereiddio yn caniatáu i'n dau bentref ddechrau symud gyda'i gilydd fel un • Byddai model ffederasiwn yn opsiwn llawer gwell, cadw ysgol yn y ddau bentref, Licswm a Brynffordd **Ysgol Rhos Helyg, Rhosesmor** • Dylid gwneud mwy i wneud defnydd o ysgolion fel canolfannau cymunedol	Mae ffedereiddio ysgolion yn broses gyfreithiol sy'n galluogi ysgolion i weithio gyda'i gilydd drwy broses strwythuredig ffurfiol. Manteision ffedereiddio, gwell addysgu a dysgu, ymddygiad a chyflawniad disgyblion. Fodd bynnag, gall hyn hefyd gael ei gefnogi gan gydweithio rhwng ysgolion. Mae llawer o enghreifftiau cadarnhaol o gydweithio rhwng ysgolion yn yr ardal eisoes yn arbennig rhwng Brynffordd a Licswm.

4.2.2. Cwestiwn ymgynghori

Pwyntiau a godwyd	Ymateb yr Awdurdod Lleol
Brynffordd • Cyfrifoldeb rhieni yw hysbysu'r plant beth sy'n digwydd pan fyddwn yn teimlo'n barod nid y cyngor na'r llywodraethwyr ysgol • Mae Brynffordd yn ysgol sy'n cyflawni'n ardderchog sydd bob amser yn llawn / dros gapasiti Mae'r ysgol hon yn gwneud yn wych ac yn teimlo os nad yw rhywbeth wedi torri peidiwch â'i drwsio'!**Licswm** • Mae ffedereiddio gydag Ysgol Brynffordd wedi cael ei gyflwyno yn hwyr iawn yn y dydd felly mae gwybodaeth lawn rhieni presennol yn gyfyngedig iawn • A yw'r penderfyniad eisoes wedi'i wneud? • A oes cynlluniau er bod ysgol Licswm yn rhy fach, mae ganddo opsiynau i'w gwneud yn bosibl i ehangu **Ysgol Rhos Helyg, Rhosesmor** • Pam fod Rhos Helyg wedi'i chynnwys yn hyn o gwbl?	Ni all y Cyngor wneud penderfyniad ymlaen llaw. Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd ymgynghori statudol o gwmpas newid trefniadaeth ysgolion yn achosi lefel o ansicrwydd o fewn cymuned yr ysgol leol. Yr her i'r Cyngor yw darparu'r nifer cywir o leoedd yn y lleoliadau iawn. Wrth ymateb i'r her hon, mae angen i'r Cyngor wneud y ddarpariaeth addysgol orau i'w ardal, gan gymryd i ystyriaeth y ddarpariaeth gyfredol, materion cymunedol, ffactorau demograffig, cyflwr adeiladau ysgolion, lleoedd gwag ac ansawdd yr amgylchedd dysgu ac addysgu. Gan fod cyllid ysgolion yn cael ei yrru'n bennaf gan nifer y disgyblion, mae capasiti dros ben yn golygu bod swm anghymesur o gyllid yn cael ei wario ar isadeiledd (megis adeiladau) a "chostau sefydlog" rhedeg ysgol (megis arweinyddiaeth a gweinyddu). Gallai'r cyllid hwn gael ei ddefnyddio'n well i sicrhau bod cymarebau disgybl-athro yn cael eu lleihau i wneud gwahaniaeth uniongyrchol i ddysgwyr. Wrth i gyllid gwasanaeth cyhoeddus leihau dros y blynyddoedd sydd i ddod, mae'r achos dros ail-flaenoriaethu a newid yn dod yn fwy grymus fyth. Mae'r Cyngor yn adolygu ysgolion fesul ardal, i wneud yn siŵr pan fyddwn yn gwneud newidiadau i drefniadaeth ysgolion, ein bod yn ystyried unrhyw effaith bosibl ar ysgolion eraill cyfagos.

DRAFT 2.9

4.2.3. Sylw ariannol

Pwyntiau a godwyd	Ymateb Awdurdod Lleol
Brynffordd • Rwy'n credu y dylai Sir y Fflint fod yn gwneud toriadau mewn mannau eraill cyn ymosod ar addysg ein pobl ifanc fel hyn. **Licswm** • Efallai ein bod yn gwario ein harian ar y pethau anghywir fel ffurflenni ymwthiol ac amherthnasol **Ysgol Rhos Helyg, Rhosesmor** • Nid yw'r arbediad rydych yn awgrymu y byddwch yn ei wneud os byddwn yn uno yn ddigon i gyfiawnhau tarfu ar addysg y plant ifanc • Mae llawer o arian wedi'i wario ar yr ysgol, gydag ardal y parc, llwybr, ieir, coedwigoedd, rhandiroedd, ardal natur, yna rydym yn cael budd y tyrbin gwynt sy'n rhoi trydan am ddim i'r ysgol ac mae'r cyngor hefyd yn elwa o hyn.	Gall trefniadaeth ysgol aneffeithlon arwain at batrymau cyllid anwastad ac annheg lle mae rhai ysgolion yn derbyn cyfran anghymesur o'r cyllid ar draul disgyblion sy'n mynychu ysgolion eraill yn yr ardal, mae hyn yn bennaf yn achos ysgolion sydd wedi'u nodi fel ysgolion bach. Dylai unrhyw gynigion ysgolion gyfrannu at sefydlu patrwm mwy cyfiawn o ariannu ysgolion. Yn unol â gofynion rheoleiddiol, mae gan Gyngor Sir y Fflint fformiwla ariannu ysgolion sydd yn fethodoleg a ddefnyddir i benderfynu ar y gyfran o'r gyllideb ar gyfer pob ysgol yn y sir. Adolygir y fformiwla bob blwyddyn ac mewn ymgynghoriad â budd-ddeiliaid perthnasol, gwneir gwelliannau i adlewyrchu newidiadau mewn polisi a chyllido. (Mae'r fethodoleg fanwl a'r cyfrannau cyllideb yn cael eu hanfon i bob ysgol a chyhoeddir crynodeb yn yr hyn y cyfeirir ato fel datganiad cyllideb adran 52).

4.2.4. Effaith ar Blant

Pwyntiau a godwyd	Ymateb Awdurdod Lleol
Brynffordd **Licswm** • mae plant yn ffynnu mewn awyrgylch ysgol fach, mewn 'ysgol fawr' a gynigir byddent ond yn rhif ac ar goll ymysg yr holl blant eraill • Byddai fy mab ac eraill yn teimlo bod unrhyw symudiad i ffwrdd o hyn yn ddinistriol ac yn anodd ymdopi ag ef • Gwarth eich bod am wneud hyn, achosi straen i'r plant a'r rhieni • Ni fyddai rhai o'r plant sydd gennym yn datblygu cystal pe baent mewn ysgol fawr, gan eu bod yn swil a diffyg hyder a hunan gred **Ysgol Rhos Helyg, Rhosesmor**	Mae adolygu dyfodol unrhyw ysgol yn ddadleuol ac yn emosiynol. Mae gan y Cyngor yr her o gydbwyso sensitifrwydd y teimlad cymunedol ar y naill law, â darparu cynnig addysg o ansawdd uchel y gellir ei gynnal a'i fforddio. Ni all y Cyngor osgoi gwneud penderfyniadau ar gyfer y dyfodol sydd er lles pennaf disgyblion a myfyrwyr. Wrth gynnig newidiadau i drefniadaeth ysgolion, cydnabyddir y bydd rhai newidiadau i'r disgyblion. Os bydd penderfyniad yn cael ei wneud i symud ymlaen gydag opsiwn newid trefniadaeth ysgolion (Opsiwn 2 neu 3), yna byddai angen ymgynghori yn unol â

DRAFT 2.9

• Nid wyf yn credu bod hyn yn ddiogel nac yn iach nac yn arwain at well dysgu i unrhyw blentyn • lleihau'r gallu i rieni ddarparu amgylchedd addysgol sefydlog a chyson i'w plant	gofynion cyfreithiol y Cod Trefniadaeth Ysgolion. Mae pontio a lles disgyblion yn gydgyfrifoldeb yr Awdurdod Lleol, Llywodraethwyr a staff. O ganlyniad bydd cynlluniau pontio pwrpasol yn cael eu teilwra i bob disgybl sy'n cael eu heffeithio gan newid, yn enwedig y rhai mewn grwpiau gwarchodedig neu ag ADY.

4.2.5. Effaith ar Gymunedau

Pwyntiau a godwyd	Ymateb yr Awdurdod Lleol
Brynffordd • Nid ydym am uno ysgolion a cholli ein hymdeimlad o gymuned trwy fynychwyr o'r tu allan i'r ardal a dosbarthiadau rhy fawr **Licswm** • Os byddwch yn cau'r ysgol, bydd y pentref yn y pen draw yn llawn o drigolion sy'n heneiddio gan na fydd yna ddim i ddenu pobl â theuluoedd • Mae dyfodol pentref a chymuned Licswm yn nwylo'r ysgol. Fel arall, bydd ein pentref yn dirywio ar gyfer cenedlaethau'r dyfodolAdeiladwyd Maes y Goron (26 o dai, gan gynnwys tai cychwynnol a thai teulu) yn ddiweddar ac mae trefniadau cynllunio ar gyfer 11 o dai eraill y tu ôl i Ffordd Walwen **Ysgol Rhos Helyg, Rhosesmor** • Bydd colli Ysgol Rhos Helyg yn dinistrio ein cymuned • Enghraifft arall o chwalu cymunedau lleol	Mae'r Cyngor yn cydnabod lle mae yna gynnig i gau ysgol y bydd yn cael rhywfaint o effaith ar y gymuned leol er bod y defnydd o'r ysgol gan y gymuned yn gymharol isel. Mae'r Cyngor wedi cwblhau Asesiad Effaith ar y Gymuned i fesur effaith a sut y gall yr effaith gael ei leihau neu ei negyddu. Cydnabyddir bod yr ysgol yn chwarae rhan bwysig yn y gymuned ehangach. Os bydd y cynnig yn cael ei weithredu bydd y Cyngor yn gweithio gyda'r ysgolion a'r cymunedau i liniaru materion lle y bo'n bosibl. Mae datblygiadau tai wedi cael eu hystyried yn llawn gan y cyngor yn ei ddogfennau ymgynghori.

4.2.6. Effaith ar Addysg

Pwyntiau a godwyd	Ymateb yr Awdurdod Lleol
Brynffordd • Rwy'n meddwl bod y plant yn dysgu mwy mewn ysgol bentref llai ac mae'n dda gweld cymaint o rieni yn cerdded eu plant i'r ysgol trwy'r pentref **Licswm** • Yn sicr pe byddai'r ysgol hon yn cau, yna byddai safonau addysg yn gostwng i'r disgyblion	Os bydd penderfyniad yn cael ei wneud i fwrw ymlaen ag opsiynau newid trefniadaeth ysgol (Opsiwn 2 neu 3), bydd y Cyngor yn cymryd pob cam ymarferol i hwyluso'r pontio ar gyfer yr holl ddisgyblion, yn enwedig ar gyfer grwpiau o ddysgwyr sy'n agored i niwed megis Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

DRAFT 2.9

• Mae canlyniadau dwy astudiaeth ddiweddar yn dangos y gall ysgolion bach fod yr ateb ar gyfer llawer o bethau sydd o'i le ar addysg gyhoeddus, yn enwedig ar gyfer plant tlawd y genedl • Rydym i gyd yn dewis pentrefi gwledig bach gydag ysgolion bach lleol i ddarparu dosbarthiadau bach a lleoliadau bach i'n plant ar gyfer eu haddysg a'u datblygiad **Ysgol Rhos Helyg, Rhosesmor** • Byddai'n gas gennyf weld plant lleol yn talu'r pris trwy dorri ansawdd eu haddysg	Os bydd cynnig ar gyfer newid trefniadaeth yr ysgol yn cael ei weithredu byddai'r Cyngor yn gweithio ochr yn ochr â disgyblion, eu rhieni a'r ysgolion perthnasol i wneud trefniadau pontio priodol i'r disgyblion ymgyfarwyddo â'u hamgylchedd newydd (yn amodol ar ddewis y rhieni).

4.2.7. Effaith ar Ddewis Rhieni

Pwyntiau a godwyd	Ymateb yr Awdurdod Lleol
Brynffordd **Licswm** • Byddwn ond eisiau i fy mhlant fynd i ysgol gynradd llai, mwy gwledig lle maent wedi rhagori • Tynnu unrhyw elfennau o ddewis i rieni'r dyfodol **Ysgol Rhos Helyg, Rhosesmor** • Dymunaf i'm hwyrion aros yn nalgylch Ysgol Alun Yr Wyddgrug • Os bydd yr ysgolion i gyd yn cael eu huno, rwyf i fel rhiant yn teimlo y byddai'r opsiwn i benderfynu neu ystyried ysgol leol i'm plant yn cael ei golli gan y byddai tair ysgol leol yn cael eu disodli gan un yn unig	Nid yw'r Cyngor yn gweithredu dalgylchoedd Ni fydd rhieni/gofalwyr yn colli'r hawl i fynegi dewis ar gyfer lle mewn ysgol. Mae lleoedd yn yr ysgol yn cael eu pennu gan bolisi Derbyniadau sy'n ofyniad cyfreithiol. Mae cyngor a gwybodaeth am dderbyniadau ar gael yn rhwydd i rieni/gofalwyr ar gais. Mae unrhyw gyngor a roddir yn unol â'r Cod Derbyn i Ysgolion a pholisi Derbyniadau'r Cyngor. Mae gwybodaeth Derbyn ar gael ar wefan y Cyngor trwy'r ddolen ganlynol hefyd: http://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Admissions.aspx

4.2.8. Effaith ar Draffig a Chludiant

Pwyntiau a godwyd	Ymateb yr Awdurdod Lleol
Brynffordd • Ni fyddai'n deg i gau Brynffordd a Licswm a disgwyl i'r plant deithio i Rosesmor **Licswm**	Mae Asesiad Effaith Trafnidiaeth (TIA) wedi cael ei gynnal ac mae ar gael i'w weld yn http://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Sch

DRAFT 2.9

• Rwyf hefyd yn poeni am ddiogelwch y plant ynghylch parcio gan yr wyf eisoes yn gweld bod hyn yn broblem i rieni Brynffordd. **Ysgol Rhos Helyg, Rhosesmor** • Mae'r sefyllfa parcio eisoes dan straen, methu defnyddio'r estyniad newydd i'r maes parcio mewn tywydd gwlyb, a rhieni yn gorfod parcio ar hyd y ffordd a lonydd amgylchynol, gan achosi annifyrrwch i drigolion lleol • Hefyd, rwy'n credu bod y teithio ychwanegol sy'n ofynnol ar gyfer llawer o ddisgyblion o Rhos Helyg yn anymarferol, costus a bydd yn cael effaith andwyol ar yr amgylchedd	ools/School-Modernisation-Related/Home.aspx Pe bai'r Cabinet yn penderfynu newid ar gyfer yr ardal, yna bydd unrhyw ddatblygiad newydd ar safle ysgol yn cymryd i ystyriaeth y ddarpariaeth parcio i staff ac ymwelwyr a chyfleusterau priodol ar gyfer gollwng rhieni/gofalwyr i ffwrdd. Byddai TIA pellach yn cael ei gomisiynu fel arfer fel rhan o unrhyw broses caniatâd cynllunio.

4.2.9. Cryfderau'r ysgol

Pwyntiau a godwyd	Ymateb yr Awdurdod Lleol
Brynffordd • Mae ysgol gynradd Brynffordd wedi bod yn ysgol wych i fyfyrwyr y gorffennol a'r presennol • Mae'r 3 o fy mhlant wedi ffynnu yn ysgol Brynffordd, gan ennill hyder a lefel uchel o addysg, maent yn tyfu i fod yn unigolion cytbwys **Licswm** • Mae'r staff yn Licswm wedi gweithio'n galed i gynnal yr ysgol fel rhan o'r gymuned • Mae Licswm yn ysgol wych nawr. Rheswm pawb dros garu'r ysgol yw agosrwydd y plant gyda disgyblion ac athrawon. **Ysgol Rhos Helyg, Rhosesmor** • Mae hon yn ysgol anhygoel, mae'r cyfleusterau o'r radd flaenaf, yn enwedig yn yr ardaloedd awyr agored fel y tŷ crwn, coetir, tŷ gwydr, llwybr heini ac ati • Mae'r safle hwn yn bodloni anghenion a gofod sydd ei angen i ddarparu ar gyfer yr holl ofynion ar gyfer y cenedlaethau o blant yn y dyfodol	Roedd yr ymatebion cadarnhaol gan ymgyngoreion am ysgolion yn yr ardal yn cael eu nodi. Mae adolygu dyfodol unrhyw ysgol yn ddadleuol ac yn emosiynol. Mae gan ddisgyblion, rhieni a gofalwyr ac athrawon y gorffennol a'r presennol gysylltiadau cryf ag ysgolion lleol a gyda hanes eu bywydau eu hunain. Mae gan y Cyngor yr her o gydbwyso sensitifrwydd y teimlad cymunedol ar y naill law, â darparu cynnig addysg o ansawdd uchel y gellir ei gynnal a'i fforddio. Ni all y Cyngor osgoi gwneud penderfyniadau ar gyfer y dyfodol sydd er lles pennaf disgyblion a myfyrwyr.

4.2.10. Cefnogi Cynnig

Pwyntiau a godwyd	Ymateb yr Awdurdod Lleol

DRAFT 2.9

Brynffordd • Rwyn meddwl bod Opsiwn 3 yn gyfaddawd gweddus • Rwy'n credu y gall ysgol fwy i fyfyrwyr Brynffordd a Licswm ar safle Brynffordd ddod â rhai manteision megis cyfleusterau gwell gyda'r fantais ei bod yn dal yn ysgol fach. **Licswm** • Rwy'n teimlo bod yr opsiwn hwn yn rhoi sefydlogrwydd i ddisgyblion ac felly'r cyfle gorau i gyflawni eu potensial. • Rwy'n teimlo yn y dyfodol byddai fy mhlant yn elwa o gael eu haddysgu mewn ysgol gynaliadwy sy'n addas i'r diben. **Ysgol Rhos Helyg, Rhosesmor** • Opsiwn 3 yw'r ateb mwyaf synhwyrol • Mae dwy ysgol yn ymddangos i fod yr opsiwn gorau, er mwyn helpu i wneud y mwyaf o adnoddau, Rhos Helyg yn gwasanaethu dau bentref ac un arall ym Mrynffordd i wasanaethu'r ddau bentref arall.	Mae'r ymatebion cadarnhaol gan ymgyngoreion ynglŷn ag adolygu ysgolion yn yr ardal wedi eu nodi.

DRAFT 2.9

4.3. Ysgol Gynradd Brynffordd

- Opsiwn 1, Status Quo oedd yr opsiwn a ffefrir gan 71 allan o 120 (59.2%), sy'n gysylltiedig â Brynffordd.
- Opsiwn 2, Ysgol Ardal ar un safle oedd yr opsiwn a ffefrir gan 3 o bobl (2.5%);}
- Opsiwn 3, Cadw Ysgol Rhos Helyg, Rhosesmor ac Un Ysgol Ardal ar un safle oedd yr opsiwn a ffefrir gan 43 o bobl (35.8%);
- Er bod 3 o bobl (2.5%) wedi dewis "Arall", nid oedd yr un ohonynt yn cynnig dewis arall ond yn gwneud sylw yn lle hynny.



Allan o'r 120 o bobl sy'n gysylltiedig â Brynffordd, ysgrifennodd 51 (42.5%) sylwadau



ychwanegol. Mae'r sylwadau hyn wedi eu dadansoddi ac mae'r themâu allweddol canlynol wedi'u nodi:

4.4. Ysgol Gynradd Licswm

- Opsiwn 1, Status Quo oedd y dewis a ffefrir gan 65 allan o 81 (80.2%) o bobl sy'n gysylltiedig â Licswm
- Opsiwn 2, Ysgol Ardal ar un safle oedd yr opsiwn a ffafrir (0.0%);
- Opsiwn 3, Cadw Ysgol Rhos Helyg, Rhosesmor ac Un Ysgol Ardal ar un safle oedd yr opsiwn a ffefrir gan 7 o bobl (8.6%);
- Er bod 9 o bobl (11.1%) wedi dewis "Arall", dim ond 5 oedd yn cynnig dewis arall, pob un ohonynt yn awgrymu ffedereiddio rhwng Licswm a Brynffordd



Allan o'r 81 o bobl sy'n gysylltiedig â Licswm, ysgrifennodd 55 (67.9%) sylwadau ychwanegol. Mae'r sylwadau hyn wedi eu dadansoddi ac mae'r themâu allweddol canlynol wedi'u nodi:

DRAFT



DRAFT 2.

4.5. Ysgol Rhos Helyg, Rhosesmor

- Opsiwn 1, i gynnal y status quo wedi'i ddewis gan 16 o bobl (4.2%);
- Opsiwn 2, Ysgol Ardal ar un safle oedd yr opsiwn a ffefrir gan 6 o bobl (1.6%);
- Opsiwn 3, Cadw Ysgol Rhos Helyg, Rhosesmor ac Un Ysgol Ardal ar un safle oedd yr opsiwn a ffefrir gan 358 o bobl (93.7%);
- 2 o bobl (0.5%) wedi dewis "Arall", nid oedd yr un ohonynt yn cynnig dewis arall, gydag 1 yn gwneud sylw yn lle hynny.



Allan o'r 382 o bobl sy'n gysylltiedig â Rhos Helyg, Rhosesmor ysgrifennodd 132 (34.6%) sylwadau ychwanegol. Mae'r sylwadau hyn wedi eu dadansoddi ac mae'r themâu allweddol canlynol wedi'u nodi:



4.6. Ymatebion di-berthynol



- Opsiwn 1, i gynnal y status quo wedi'i ddewis gan 4 o bobl (20.0%);
- Nid oedd neb (0%) yn ffafrio Opsiwn 2, ysgol ardal ar un safle;
- Y mwyafrif o bobl a ddywedodd nad ydynt yn gysylltiedig ag unrhyw un o'r ysgolion, 14 allan o 20 (70.0%), wedi dewis Opsiwn 3, i gael ysgolion ardal ar ddau safle, fel eu dewis
- Er bod 2 o bobl (0.5%) wedi dewis "Arall", dim ond 1 oedd yn cynnig dewis arall, gan awgrymu bod "pob ysgol yn ffedereiddio ac yn dod yn ysgolion cynradd a Reolir yn Wirfoddol gan yr Eglwys yng Nghymru".

Allan o'r 20 o bobl heb unrhyw gyswllt ag unrhyw un o'r ysgolion, dim ond 8 (40.0%) oedd yn ysgrifennu sylwadau ychwanegol. Mae'r themâu allweddol wedi cael eu nodi fel a ganlyn:

DRAFT



DRAFT

4.7. Crynodeb Ffurflenni Ymateb Plant a Phobl Ifanc

Cafodd iaith y Ffurflen Ymateb gwreiddiol ei haddasu er mwyn caniatáu i blant a phobl ifanc a fyddai'n cael eu heffeithio o bosibl gan unrhyw newid i roi eu barn ar yr Adolygiad Ysgolion Ardal.

Fodd bynnag, rhaid nodi bod 4 o bobl a gwblhaodd y fersiwn hon o'r arolwg wedi nodi eu bod yn rhieni plant sydd un ai mewn un o'r ysgolion neu'n aros i ymuno ag un ohonynt.

- 15.2% (5 o ymatebwyr) yn gysylltiedig â Brynffordd;
- 18.2% (6 o ymatebwyr) yn gysylltiedig â Licswm
- 57.6% (19 o ymatebwyr) yn gysylltiedig ag Ysgol Rhos Helyg, Rhosesmor;
- 9.1% (2 o ymatebwyr) naill ai'n dewis "Arall" neu heb nodi ysgol.

Opsiwn 1, Status Quo, oedd y dewis a ffefrir gan 12 (36.4%) o ymatebwyr;

- Opsiwn 2, Ysgol Ardal ar un safle oedd yr opsiwn a ffefrir gan (0.0%);
- Opsiwn 3, Cadw Ysgol Rhos Helyg, Rhosesmor ac Un Ysgol Ardal ar un safle oedd yr opsiwn a ffefrir gan 20 o bobl (60.6%);
- 1 plentyn (3.0%) wedi dewis "Arall" ond nid oedd yn cynnig dewis arall, yn hytrach ond yn gadael sylw.

Yr opsiynau a ddewiswyd gan ymatebwyr yn dangos mai'r dewis a ffefrir ar gyfer Brynffordd a Licswm oedd Opsiwn 1 ar gyfer Ysgol Rhos Helyg, Rhosesmor Opsiwn 3 ac ar gyfer plant heb unrhyw gyswllt ag unrhyw un o'r tair ysgol, Opsiwn 3.





DRAFT



Allan o'r 33 o bobl a gyflwynodd arolwg, ysgrifennodd 10 (30.3%) sylwadau ychwanegol. Mae'r sylwadau hyn wedi cael eu dadansoddi a darnau wedi eu dewis i nodi'r themâu allweddol canlynol:



5. Camau nesaf

Fel yr amlinellwyd yn y dogfennau ymgynghori, bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet, (corff gwneud penderfyniadau'r Cyngor) gofynnir iddynt benderfynu pa opsiwn i fwrw ymlaen ag ef yn yr ardal. Bydd Aelodau'r Cabinet hefyd wedi derbyn dogfennau ymgynghori a'r holl wybodaeth a gafwyd o'r ymgynghoriad, ar ffurf yr adroddiad cryno, ar ben hynny bydd yr holl ymatebion unigol hefyd ar gael i bobl sy'n gwneud penderfyniadau.